# Y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau (Cymru)

## Cofnodion (LS(3)-07-08)

**Dyddiad y cyfarfod: 14 Hydref 2008**
**Amser y cyfarfod: 9.30 - 11am**
**Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 2**

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

Jeff Cuthbert, Caerffili (Cadeirydd)
Christine Chapman, Cwm Cynon
Andrew RT Davies, Canol De Cymru
Janet Ryder, Gogledd Cymru
Kirsty Williams, Brycheiniog a Sir Faesyfed

### Y Swyddfa Ddeddfwriaeth

Siân Wilkins, Clerc
Claire Griffiths, Dirprwy Glerc

### Eraill yn Bresennol

Gwyn Griffiths, Cynghorydd Cyfreithiol
Anne Thomas, Uwch Swyddog Ymchwil

### Tystion

John Griffiths AC, Y Dirprwy Weinidog dros SgiliauGrace Martins, Yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraeth Cynulliad CymruMark Leighfield, Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Llywodraeth Cynulliad Cymru

### Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon

1.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

1.2 Nododd y Cadeirydd ei ddiolch i Alun Davies AC am ddirprwyo ar ei ran a chadeirio'r Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau ar 9 Hydref.

#### Eitem 2: Y Mesur Arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2008 - Cyfnod 1, Sesiwn Dystiolaeth 6

2.1 Clywodd y pwyllgor dystiolaeth lafar gan John Griffiths AC, y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau, yn cael ei gynorthwyo gan Grace Martins, yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Mark Leighfield, yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Pwyntiau gweithredu**

Cytunodd y Dirprwy Weinidog i ysgrifennu at y Cadeirydd gyda'r wybodaeth ychwanegol ganlynol:

- Eglurhad ynghylch i ba fandiau y mae Awdurdodau Addysg Lleol unigol wedi eu neilltuo;

- Dadansoddiad pellach o Dabl 1 sydd wedi'i gynnwys yn ei bapur i ddangos nifer y cyrsiau sy'n cael eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg;

- Manylion aelodaeth y Rhwydweithiau Dysgu 14 - 19;

- Manylion am ba Awdurdodau Addysg Lleol sy'n cyflogi swyddogion arbennig sy'n ymdrin â Llwybrau Dysgu.

Y Cadeirydd i ysgrifennu at Estyn i ofyn am ragor o sylwadau am y bwriad i roi'r Mesur arfaethedig ar waith yn raddol.

Yr Ysgrifenyddiaeth i drefnu cyfarfod arall i'r pwyllgor glywed rhagor o dystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog am y Mesur arfaethedig.

### Eitem 3: Sylwadau i gloi

3.1 Penderfynodd y pwyllgor wahardd y cyhoedd o'i drafodaethau ynghylch materion allweddol Adroddiad Cyfnod 1 ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2008, yn y cyfarfod nesaf, yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi).